Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 4 June, 2018** at 6.30 p.m.

**PRESENT: -** The Deputy Mayor: John Wyn Williams
Chairman: Councillor Gwynant Roberts

| Councillors: | | | |
|---|---|---|---|
| | Les Day | Ifan James | Nigel Pickavance |
| | Dylan Fearnley | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | D Hainge | Colin King | Mair Rowlands |
| | Medwyn Hughes | John Martin | Luke Tugwell |
| | Owen Hurcum | Enid Parry | Elin Walker Jones |

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

**33/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from His Worship The Mayor Councillor John Wynn Jones, Councillors Conor Savage and Huw Wynn Jones.

**34/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor M Hughes declared an interest in Planning Application **C18/0238/11/LL** as a tenuous connection to one of the applicants.

**35/18 APPOINTMENT OF VICE-CHAIRMAN**

**RESOLVED:** that Councillor Owen Hurcum be appointed Vice-Chairman for the remainder of the Municipal Year.

**36/18 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk reported on the following matters:

i) **Bangor Market:** The Bangor Market Company had now signed the Memorandum of Understanding to enable the City Council to operate Bangor Market every Friday over the next three years.

ii) **Closure of Pierhead:** It was noted that the Pierhead and tea Pavilion had been closed due to an adverse structural and engineering report which meant the area could not guarantee safety to members of the public or the pavilion tenants. It was likely to be closed off for approximately nine months whilst the structure was made safe. Various questions were responded to about additional costs, updated financial report, renovation progress, toilet facilities, information to the public and effect on tenants/kiosks at the pier.

(iii) Councillor Keith Jones raised a number of questions regarding **grass cutting and grounds maintenance** in Bangor. Concern was expressed from many Members that Gwynedd Council had not been particularly proactive in assisting this matter. The Town Clerk reported that he had not had the promised agreement to assist in this area and unless permission and agreement from Gwynedd Council was forthcoming, the City Council were unable to undertake any such maintenance as it would be unlawful and would be without adequate insurance cover. Members also raised the issue of sponsored roundabouts and verges to which Gwynedd Council had not responded. This was a very frustrating matter for Local Members who were unable to push ahead and improve the appearance of the City.

**RESOLVED:** that this matter be placed on the agenda for the Bangor Image Partnership meeting on 9 July for a direct discussion between City Council Members and senior Gwynedd Officers/Cabinet Member

**37/18 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C18/0238/11/LL** Redevelopment of the site to provide 55 residential units, together with the creation of a new vehicular access, estate roads and associated paths, parking spaces and landscaping. Former Dickies Boatyard (Phase II), Beach Road.

Amended / Additional Information:
- Invasive weed management plan – 10/04/18
- Winter Bird Survey – 10/04/18
- Habitat Regulations Assessment – 10/04/18
- Pre-Application Consultation Report Addendum 11/05/18. **Objection as this was over development of a site with many environmental issues also**

Councillor Medwyn Hughes left the chamber during the discussion of the above application.

**C18/0337/11/AM** Construction of a dwelling. 33 Bryn Eithinog. **Objection as this was over development of a small site within a garden.**

**C18/0408/11/CC** Reduction works to Cedar tree protected under a Tree Preservation Order. 6 Bryn Adda **Objection on the grounds that the cedar tree should be protected as per the Tree Preservation Order as the reasons for the proposal were insufficient.**

**C18/0416/11/CT** Application to lop trees in a Conservation Area. Bryn y Mor, Ffordd Caergybi. **No Objection.**

**38/18 LICENSING MATTERS -** Premises Licence – Chipy and Curries, Stryd Fawr - **No objections**

**39/18 HIGHWAY MATTERS - None.**

**40/18 EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

**RESOLVED:** That under the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, members of the press and public be excluded from the meeting due to the confidential nature of ther business to be transacted.

**41/18 FINANCIAL AND LEGAL POSITION OF THE COUNCIL:**

Following an earlier request, the Town Clerk and Responsible Financial Officer gave an up to date report on debtors, policy, financial regulations and the due process to be undertaken in particular circumstances. Some historical details were discussed as was the legal position of the Council in a given scenario. Members thanked the Town Clerk for the update and asked to be kept informed as to developments.

---

The Meeting closed at 8.15 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun, Mehefin 4, 2018** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL** :- Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd John Wyn Williams
Cadeirydd: Cynghorwyr Gwynant Roberts

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorwyr | Les Day | Ifan James | Nigel Pickavance |
| | Dylan Fearnley | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | D Hainge | Colin King | Mair Rowlands |
| | Medwyn Hughes | John Martin | Luke Tugwell |
| | Owen Hurcum | Enid Parry | Elin Walker Jones |

Swyddog :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref

**33/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wynn Jones a'r Cynghorwyr Conor Savage a Huw Wynn Jones.

**34/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Medwyn Hughes gysylltiad â Chais Cynllunio C18/0366/11/TC gan fod ganddo gysylltiad tenau ag un o'r ymgeiswyr.

**35/18 PENODI IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD**: penodi'r Cynghorydd Owen Hurcum yn Is-Gadeirydd am weddill y Flwyddyn Fwrdeistrefol.

**36/18 MATERION BRYS**

Adroddodd Clerc y Dref ar y materion canlynol:

**i)** **Marchnad Bangor:** Roedd Cwmni Marchnad Bangor bellach wedi arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth a fyddai'n galluogi Cyngor y Ddinas i weithredu Marchnad Bangor bob dydd Gwener dros y tair blynedd nesaf.

**ii)** **Cau Pen pellaf y Pier:** Nodwyd fod pen pellaf y Pier a'r Pafiliwn Te wedi cau o ganlyniad i adroddiad strwythurol a pheirianneg anffafriol a oedd yn golygu na ellid gwarantu fod yr ardal i ddiogel i'r cyhoedd na thenantiaid y pafiliwn. Byddai'n debygol o fod ar gau am oddeutu naw mis tra bod y strwythur yn cael ei wneud yn ddiogel. Ymatebwyd i gwestiynau amrywiol ynghylch costau ychwanegol, diweddariad o'r sefyllfa ariannol, cynnydd y gwaith adfer, toiledau, gwybodaeth i'r cyhoedd a'r effaith ar denantiaid/ciosgau ar y Pier.

**iii)** Cododd y Cynghorydd Keith Jones nifer o gwestiynau am **dorri gwair a chynnal a chadw tir** ym Mangor. Mynegwyd pryder gan nifer o'r Aelodau nad oedd Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhagweithiol iawn yn helpu gyda'r mater hwn. Adroddodd Clerc y Dref nad oedd wedi cael y cytundeb a addawyd am gymorth yn y maes hwn. Os nad oedd yn cael caniatâd a chytundeb gan Gyngor Gwynedd, ni fyddai Cyngor y Ddinas yn gallu gwneud unrhyw waith cynnal a chadw gan y byddai hynny'n anghyfreithlon a heb warant yswiriant digonol. Codwyd hefyd y mater o gylchfannau ac ymylon ffyrdd yn cael eu noddi ac nid oedd Cyngor Gwynedd wedi ymateb i hyn. Roedd hyn yn fater rhwystredig iawn i Aelodau Lleol nad oedd yn gallu symud ymlaen i wella golwg y Ddinas.

**PENDERFYNWYD:** rhoi'r mater hwn ar agenda Partneriaeth Delwedd Bangor sy'n cyfarfod ar 9 Gorffennaf i gael trafodaeth uniongyrchol rhwng Aelodau Cyngor y Ddinas ac uwch swyddogion/Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd.

**37/18 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C18/0238/11/LL** Ailddatblygu'r safle i ddarparu 55 uned byw ynghyd a chreu mynedfa gerbydol newydd, ffordd stad a llwybrau cysylltiedig, mannau parcio a thirlunio. Hen Yard Gychod Dickies (Cam II), Ffordd y Traeth.

Gwybodaeth Ychwanegol / Diwygiedig

- Cynllun Rheoli Chwyn Ymledol – 10/04/18
- Arolwg Adar Gaeaf – 10/04/18
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – 10/04/18
- Ychwanegiad i'r Adroddiad Ymgynghori Cyn Gwneud Cais - 11/05/18. **Gwrthwynebiad gan fod hyn yn gor-ddatblygu safle ac mae llawer o broblemau amgylcheddol hefyd**

Gadawodd y Cynghorydd Medwyn Hughes y siambr pan oedd y cais uchod yn cael ei drafod.

**C18/0337/11/AM** Adeiladu tŷ 33 Bryn Eithinog. **Gwrthwynebiad gan fod hyn yn or-ddatblygiad o safle bychan mewn gardd.**

**C18/0408/11/CC** Gwaith tocio i Gedrwydden a warchodir gan Orchymyn Diogelu Coed 6 Bryn Adda **Gwrthwynebiad ar y sail y dylai'r gedrwydden gael ei gwarchod fel yn ôl y Gorchymyn Diogelu Coed gan nad oedd y rhesymau dros y cynnig yn ddigonol.**

**C18/0416/11/CT** Cais i docio coed o fewn Ardal Gadwraeth. Bryn y Môr, Ffordd Caergybi. **Dim Gwrthwynebiad.**

**38/18 CEISIADAU TRWYDDEDU** - Trwydded Mangre - *Chippy and Curries,* Stryd Fawr - **Dim gwrthwynebid**

**39/18 MATERION PRIFFYRDD - Dim**

**40/18 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:** O dan ddarpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod.

**41/18 SEFYLLFA ARIANNOL A CHYFREITHIOL Y CYNGOR:**

Yn dilyn cais cynharach, rhoddodd Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol adroddiad diweddar ar ddyledwyr, polisi, rheoliadau ariannol a'r drefn briodol y dylid ei dilyn mewn amgylchiadau arbennig. Trafodwyd rhai manylion hanesyddol ynghyd â sefyllfa'r Cyngor mewn senario arbennig. Diolchodd yr Aelodau i Glerc y Dref am y diweddariad gan ofyn am iddynt gael eu hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.15 y.h.